

papur



priordy



**PLANT BACH IESU GRIST YDYM NI BOB UN,
FE SYDD YN EIN CADW YN EI LAW EI HUN,
FE SYDD YN EIN GWYLIO'N DIRION YMHOB MAN,
Y MAE'N FRAWD I'R LLEIAF, YN FFRIND I'R GWAN.**

W Nantlais Williams (1874-1959)

*Dewiswyd gan John Meredith
Gweler ei reswm dros ei ddewis y tu mewn*

Rhifyn 313
PAPUR GORFFENNAF / AWST 2018
RHIFYN DWBL

GAIR GAN EIN GWEINIDOG

Cymru a Madagasgar

DOES unman gwell i dreulio diwrnod yn haul Mehefin nag yn nhref Aberaeron. Yno cewch syllu ar y môr ym Mae Ceredigion a chael eich cyfareddu gan ei ddisgleirdeb neu'ch cyffroi gan ei chwedloniaeth. Ie, lle i enaid gael llonydd. Ond doedd fawr o lonydd yn Aberaeron pa ddydd a hynny oherwydd bod torf ychwanegol at y carafanwyr ffyddlon wedi disgyn ar yr dref. Daethant yno o bob twll a chornel o Gymru dan faner Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, gan mai Aberaeron roddodd gartref i gyfarfodydd Blynnyddol yr Undeb eleni am dridiau o 6-9 Mehefin



Y Cenhadon

Does dim angen rheswm o gwbl i ymweld ag Aberaeron, ond, fel mae'n digwydd, roedd gan Annibynwyr Cymru reswm da i gynnal eu cyfarfodydd yno'n ddiweddar - deucan mlynedd yn ôl i eleni, yn mis Chwefror 1818, hwyliodd cenhadon o Neuadd Lwyd,

dafliaid carreg o Aberaeron, i Fadagasgar - ynys oddi ar arfordir ddwyreiniol cyfandir Affrica.

Yn Awst 1817 daeth 5,000 o bobl ynghyd mewn cwrdd ordeinio yn Neuadd-lwyd i weld dau fachgen lleol yn cael eu sefydlu'n genhadon. Eu henwau oedd David Jones a Thomas Bevan.

Wynebwyd her ac ôl her wedi gadael Cymru: mordaith hir a thymhestlog, genedigaethau, gwrthwynebiad gwleidyddol, tywydd eithafol, salwch difrifol, iaith a diwylliant newydd, a phrinder adnoddau. Ond er gwaetha'r holl anawsterau a'r heriau a wynebodd y cenhadon ar hyd y dait h, fe'u cynhaliwyd gan eu ffydd




ddiysgog a'r dyhead i wneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl Madagasgar. Canlyniad eu taith oedd sefydlu ysgolion a chenhadaeth Gristnogol yno. Erbyn heddiw mae dros 5 miliwn o Gristnogion yn aelodau o eglwysi ar yr ynys, sy'n olrhain eu hanes yn ôl i'r cenhadon o Gymru a gyrhaeddodd yno ym 1818. Eleni, mae pobl Madagasgar a Chymru'n cofio'r stori ryfeddol hon, ac yn dathlu'r deucanmlwyddiant gyda'i gilydd.



Hanes

Gwych o beth yw cofio digwyddiadau mewn hanes - yn enwedig pan fo'r cofio hwnnw'n cynnig ei hunan ar gyfer dathlu. Wedi'r cwbl, dyw pob digwyddiad hanesyddol ddim yn achos i'w ddathlu. Yn wir, mae ambell ddigwyddiad mewn hanes yn peri i ni gywilyddio neu arswydo fod y fath beth wedi digwydd o gwbl. Ond diolch am gyfle i ddathlu eleni - dathlu perthynas a chyfeillgarwch arbennig iawn rhwng dwy wlad.

Maen nhw'n dweud mai newyddion heddiw yw hanes yfory. Tybed sut hanes ydyn ni'n ei greu heddiw? Hanes y bydd ein disgynyddion yn cywilyddio wrth edrych yn ôl arno, neu hanes y byddant yn ei ddathlu ac yn falch o'u tras?



Gweddiwn

**Cymorth ni, o Dduw Dad,
i greu heddiw hanes y bydd y dyfodol yn falch ohono.
Rho oleuni Crist yn ein llygaid,
llais yr Efengyl yn ein clustiau
a than dy gariad yn ein calonnau.
Yn enw Iesu Grist.**

Amen



Mis Gorffennaf	Darlleniad
Wythnos 1	2 Corinthiaid 8: 7-15
Wythnos 2	2 Corinthiaid 12: 2-10
Wythnos 3	Effesiaid 1: 3-14
Wythnos 4	Effesiaid 2: 11-22
Wythnos 5	Effesiaid 3: 14-21
Mis Awst	Darlleniad
Wythnos 1	Effesiaid 4: 1-16
Wythnos 2	Effesiaid 4:25; 5:2
Wythnos 3	Effesiaid 5: 15-21
Wythnos 4	Effesiaid 6: 10-20

DIOLCH YN FAWR

Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad

ADRIAN A GLORIA EVANS

at gyhoeddi'r Papur y mis hwn

DYMUNIADAU DA

Pob dymuniad da i Beti-Wyn a'i theulu ym Melbourne yn Awstralia. Mwynhewch y profiad a dychwelwch yn ddiogel!



Y PRIORDY’N CROESAWU CYFEILLION O FADAGASGAR

Ar brynhawn Dydd Llun, 4 Mehefin 2018, croesawyd ymwelwyr o Fadagasgar i'r Ffestri i de.



Cafwyd eitemau cerddorol gan Barti Merched Ysgol y Dderwen, Lucy Jones (telyn), Gwenllian a Harri (deuawd fiolin), Siwan Jones (cerdd dant) a digon o ganu a dawnsio dan arweiniad cyfeillion Madagasgar!

Diolch i Gill Owens, Eirlys Jones, Gloria Evans a Hilary Kynaston am gynorthwyo yn y gegin, a diolch arbennig i Hilary am gyfieithu ar y pryd i'r Ffrangeg.

Roedd ein cyfeillion draw yng Nghymru eleni i ddathlu deucanmlwyddiant cenhadon o ardal Neuadd-lwyd ac Aberaeron yn mynd i Fadagasgar ym 1818..

DIOLOCH YN FAWR IAWN MAIR!

Mae Mair Baston wedi penderfynu ymddeol o'i chyfrifoldeb o drefnu'r blodau yn y capel.

Rydym i gyd yn ddiolchgar iawn iddi am fod mor barod i gyflawni'r gwaith pwysig hwn dros gyfnod mor faith.



Bydd Mair yn parhau i atgoffa aelodau dros y ffôn ynghylch eu tro i roi blodau. Ond, o hyn ymlaen, bydd gofyn i'r sawl sy'n rhoi blodau naill ai ddod â'r blodau i'r cwrdd cyn yr oedfa ar y bore Sul dan sylw a'u gosod neu gysylltu â Gofalwr y Mis am allwedd er mwyn dod i'r capel i wneud hynny yn ystod yr wythnos.

Mae'n diolch yn fawr hefyd i Gloria Evans am gytuno i barhau i lunio'r Rota Blodau.



DECHRAU CANU DECHRAU CANMOL

MAE'R RHAI sy'n fy adnabod i yn dda yn gwybod yn iawn nad ydw i'n ffan mawr o gymanfaoedd canu, ac nad ydw i erioed wedi dilyn y rhaglen Dechrau Canu Dechrau Canmol yn rhy ffyddlon chwaith! Ond dwi'n cael tipyn mwy o



flas ar gyfresi diweddar y rhaglen lle caiff pynciau eu trafod o fewn cyd-destun ffydd ac emynau. Ac ar nos Sul, y 3^{ydd} o Fehefin, Ffoaduriaid oedd y pwnc dan sylw, a'r drafodaeth yn dod o Gapel y Priordy, Caerfyrddin. Beth allai fod yn well? Rhaglen dan arweiniad **Nia Roberts**, un o gyflwynwyr



gorau a mwyaf proffesiynol y sianel; eglwys dan arweiniad **Beti-Wyn**, un o'r gweinidogion mwyaf brwdfrydig a byrlymus a chynnes sydd gennym yng Nghymru; a chanu dan arweiniad **Meinir Richards**, cerddor gwych sy'n llwyddo i ennyn ymateb gyda'r gorau. Tair gwraig nad oes gwell eu cael yn eu hamrywiol feysydd - a chefais i mo fy siomi.

Mae Capel y Priordy wedi bwrw ati i ddangos croeso cynnes i deulu o ffoaduriaid drwy osod y tŷ capel i deulu o Syria. Roedd y gynulleidfa'n unfrydol eisiau rhoi llety iddyn nhw, eisiau rhoi eu ffydd ar waith mewn modd ymarferol iawn drwy agor breichiau i deulu o Fwslemiaid mewn angen. Ac roedd yn hyfryd gweld y teulu'n siarad am y gynhaliath a'r croeso maen nhw wedi eu cael gan yr eglwys. Fel y soniwyd sawl tro yn y rhaglen, ffoadur oedd Crist ei hun, yn gwybod beth oedd gorfod dianc rhag erledigaeth, yn gwybod beth oedd cael ei drin fel esgymun, ac yn gwybod beth oedd dioddef i'r eithaf yn y pen draw. A gwelwyd yn glir yn y rhaglen sut mae'r Priordy wedi rhoi cymaint o obaith i deulu di-obaith drwy eu croesawu a'u cofleidio yn enw Crist. A'r eglwys yng Nghaerfyrddin yn gweld eu bod



hwythau'n dysgu a dod i ddeall yn well drwy agor breichiau. Roedd hi'n hyfryd clywed Beti Wyn yn sôn am y cydweithio sydd rhwng yr eglwys â'r Mosg lleol a'r modd y mae'r ddwy gymuned grefyddol yn bugeilio'r teulu newydd gyda'i gilydd.

Mae **Aled Edwards** wedi hybu cymaint o gydweithio rhwng gwahanol grefyddau yng Nghymru ac wedi rhoi arweiniad arbennig wrth i Gymru geisio helpu'r argyfwng ffoduriaid. Hyfryd oedd ei weld yntau yn rhan o'r rhaglen yn sôn am sefydliad Oasis yn ardal Sblott yng Nghaerdydd sydd yn cynnig help i ffoduriaid o Swdan, y Congo, Mali, Afghanistan a Syria i ymdoddi i'r gymuned leol. Bellach mae'r lle yn cynnig bwyd a chymdeithas i 100 o bobl yn ddyddiol. Hyfryd oedd clywed rhai ohonynt yn sôn am yr amrywiol sgiliau y maent wedi eu dysgu yn Oasis - gan gynnwys dysgu siarad Cymraeg!



Rhwng yr amrywiol sgysiau, cafwyd canu ystyrllon a llawen gan y gynulleidfa yng Nghapel y Priordy a pherfformiad disgybledig gan gôr ysgol Bro Myrddin o eiriau Dyfnallt Morgan ar gerddoriaeth John Rutter.

DYMA RAGLEN ddangosodd yn glir beth yw ffydd ar waith yng Nghymru heddiw. Pwysleisiwyd y cyfrifoldeb sydd arnom fel Cristnogion i roi cyfle cyfartal i bawb, i ddod o hyd i'r man canol sy'n ein cysylltu yn hytrach na phwysleisio'r gwahaniaethau, i chwilio bob amser am yr hyn sy'n gyffredin rhngom ac adeiladu ar y cadarnhaol. Gyda'n gilydd, law yn llaw, y mae symud ymlaen, a'r her i ni i gyd fel unigolion ac eglwysi yw dilyn yr esiampl a welwyd yn y rhaglen hon. Diolch Eglwys y Priordy am ddangos y ffordd.



Diolch yn fawr iawn i Gwenan am ei hymateb i'r rhaglen. Gwenan yw Ysgrifennydd Gweithredol Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen. Mae hi hefyd yn flaenor ac yn Ysgrifennydd y Cyhoeddiadau yng Nghapel y Morfa, Aberystwyth ac yn un olygyddion Perthyn, cylchgrawn y capel.

DATHLU SIOCLED DIVINE



Mae pawb yn hoffi siocled Divine,
Mam,dad, fi a nain.
Dewis anhygoel o flasau hudol,
Taffi ac oren a mafon amrywiol.
Siocled gwyn, tywyll a llaeth,
Arogl hyfryd ac yn llawn maeth.
Dŵr, awyr a gwres poeth Affrica,
Sy'n gwneud i'r coco dyfu yn Ghana.
Y ffermwr sy'n gweithio'n galed o hyd,
I helpu ei deulu a'i gymuned i gyd.
Rhaid cael Masnach Deg yn ein byd,
A digonedd o siocled o hyd ac o hyd!

Elis Roderick

***Llongyfarchiadau mawr i Elis, enillydd Cystadleuaeth Cyfansoddi
Barddoniaeth Divine 2018 yn y Gymraeg – adran uwchradd.
Y beirniad oedd Casia Wiliam, Bardd Plant Cymru***

TUDALEN BLAEN

Rheswm John Meredith dros ddewis *Plant bach Iesu Grist...*

Pan oeddwn yn fachgen ifanc yn



Llangadog
cefaïs y fraint o
dreulio ychydig
amser yng
nghwmni Nantlais.



Chwaer fy nhad oedd yn byw yn Nhŷ **Capel Gosen** (Capel y Methodistaïd) ac roedd hi wedi trefnu i rai o blant y teulu gael te ar y Sul arbennig hwn yng nghwmni **Nantlais**.

Cyn y cwrdd nos roedd Nantlais wedi cyfansoddi'r pennill hwn i ni'r plant:



**Byd bydol iawn byd Edith [Chwaer],
A mawredd i Marion [Chwaer]ac Elyth
[Cyfnither],
A di-dranc mewn byd di-lyth
Y rhodia John Meredith.**

Gydag atgofion hapus iawn am y dyn arbennig hwn ac am fy magwraeth hapus yn Llangadog.



SUL SBESIAL

BORE SUL 8 GORFFENNAF – 10.30

YSGOL BRO DINEFWR, FFAIR-FACH. LLANDEILO

**Oedfa gyda'r Parchedig Derek Rees ac Ysgol Sul
Capel Newydd, Llanddarog ar y thema Môr.**

Y casgliad yn mynd at 'Water Aid'.

**Fan Byrgyrs a Hufen iâ... Nifer o stondinau amrywiol..... Te, Coffi a
Diod am ddim**

Mynediad am ddim.Croeso i bawb

Y Parchedig Ddr Desmond Davies...

IESU YN Y CANOL

Ceir nifer o gyfeiriadau yn yr Efengylau at Iesu 'yn y canol'.



- Yn ddeuddeg oed eisteddai ynghanol yr athrawon yn y deml (Luc 2:45).
- Fe'i croeshoeliwyd ar yr un ganol o'r tair croes a godwyd ar fryn Golgotha (Ioan 19: 18).
- Yn y canol y safai wrth ymddangos i'w ddisgyblion yn dilyn ei atgyfodiad (Ioan 20: 19, 26).
- Cyn mynd i'r groes, rhoddodd addewid i'w ddisgyblion y byddai yn eu canol lle a phryd bynnag y byddai dau neu dri ohonynt yn ymgynnull yn ei enw (Mathew 18: 20).

Hon oedd thema pregeth y Barchedig Beti-Wyn James yn oedfa hwyrol Cyfarfodydd Sefydlu y Parchedig Emyr Gwyn Evans yn weinidog yn eglwysi Gofalaeth Broydd Myrddin, yng nghapel Peniel, ddiwedd Ebrill. Yn dilyn yr oedfa dyma fynd ati i osod cynnwys y genadwri ar ffurf emyn:

Tôn: Navarre (Rhif 610 yn Caneuon Ffydd)

**Tydi a fu ynghanol meistri dysg,
A'th air yn peri syndod yn eu mysg,
Tyrd atom ni i ganol drylliog fyd
I ddysgu inni'r ffordd i fyw ynghyd.**

**Buost ar groes ynghanol euog ddau,
A'r naill yn ymbil arnat drugarhau;
Tyrd 'nawr i'n plith, nid oes ond nerth dy ras
A all gymodi rhwng gelynyion cas.**

Daethost yn fyw i ganol ofnus rai,
Yng ngrym dy Basg, er bod y drws ynghau;
Tyrd atom, Arglwydd lesu, yr un modd,
Â'th air fel cynt, 'Tangnefedd ichi'n rhodd'.

I'th eglwys lân, O tyrd i'w chanol hi –
Lle byddo'n gref, neu ond yn ddau neu dri;
Rhag iddi gyfeiliorni yn ei gwaith
Rho iddi olau d'Ysbryd ar ei thaith.

Maddau ddallineb oes a'th yrrodd di
I bell ymylon ei meddylfryd hi.
Tydi sydd heddiw'n frenin da'er a ne',
Yng nghanol byd ac eglwys myn dy le.


DARLITH FLYNYDDOL CYMDEITHAS EMYNAU CYMRU

YR HEN BANT IFANCA'N BOD

Yr Athro Derec Llwyd Morgan

**Prynhawn Sul, 6 Awst 2018
am 2.15**

**Y Babell Lân
Eisteddfod Genedlaethol
Caerdydd 2018**



Cenir ambell emyn gan Wil Tân



CASGLIAD CWRDD PLANT CYMDEITHAS DYDD YR ARGWLWYDD

Casglwyd £60 at weithgarwch Cymdeithas Dydd yr
Arglwydd yn ystod y gwasanaeth ar Fore Sul, 24
Mehefin 2018. Diolch i bawb a gyfrannodd ac i
Adrian Evans, ein Trysorydd am gadw'r cyfrifon

MABOLGAMPAU MIC

Meithrin - B6



Beti-Wyn.....

CHWILIWCH DRWY'CH SIEDIAU!

Hoffwn osod her i chi dros wythnosau'r haf!

Oes gennych unrhyw offer (tŵls) yn eich garej neu'ch sied nad ydych yn eu defnyddio mwyach?



Yn ystod mis Medi, byddwn yn casglu offer **ail law** a fydd yn cael eu danfon at **Workaid**. Mae **Workaid** yn trwsio'r offer ac yn eu cyflwyno i bobl sydd dan anfantais yn Nwyrain Affrica a'r DU yn bennaf, er mwyn iddynt fedru dysgu sgiliau newydd a dod yn hunangynhaliol.

Mae Workaid yn credu:

1. Bod dysgu pobl i fod yn hunangynhaliol yn holl bwysig
2. Bod ailgylchu adnoddau'r byd yn bwysig
3. Bod gwaith gwirfoddol yn sylfaenol ar gyfer datblygiad positif
4. Mewn cyfartaledd, a bod angen cefnogi pawb

Pe hoffech gefnogi'r apêl hon, hoffwn eich gwahodd i gyfrannu'r canlynol (pethau ail law rydych wedi gorffen â nhw):

Offer garddio o unrhyw fath e.e.

Rhaw

Caib

Trywel llaw

Fforch

Fforch law (gwnewch yn siŵr bod y dolenni'n sownd os gwelwch yn dda)

Caniau dŵr

Pibell ddŵr

Offer gwaith coed o unrhyw fath e.e.

Llif

Morthwyl

Offer plymio, e.e.

Pibau

Offer adeiladu, e.e.

Trywel
Sbirit-lefel

Peiriannau Gwnïo

Unrhyw oed gan gynnwys hen rai

Offer Mecanig e.e

Sbaneri



Teipiadur

Llaw dwylo'n unig (dim trydan)

Mae sicrhau bod pobl yn dysgu sgiliau newydd yn rhoi urddas i'r unigolyn. Beth am i ni gefnogi **Workaid** yn ystod mis Medi? Bydd blychau ym mlaen y capel (cofiwch mai offer ail law sydd eu hangen er mwyn iddynt gael eu hailgylchu, ac nid pethau newydd)

Gweler www.workaid.com am fwy o wybodaeth



CYNGERDD DATHLU 60 MLYNEDD



CÔR MEIBION CAERFYRDDIN



Theatr y Lyric Caerfyrddin

Nos Sadwrn 13 Hydref 2018 am 7

Artistiaid

Jessica Robinson
Soprano

Trystan Llŷr Griffiths
Tenor

Corau Meibion
Caerfyrddin, Porth Tywyn, Mynydd Mawr, Dyffryn Tywi,
Dyffryn Aman

Wyn Maskell
Arweinydd

Heather Williams
Cyfeilydd

Garry Owen
Arweinydd y Noson

Brian Jones Castell Howell
Llywydd y Noson

Tocynnau - £12
Theatr y Lyric neu Dylan Jones

CWRDD PLANT A PHOBL IFANC 24 Mehefin 2018



WEL am hwyl a gafwyd yn yr oedfa blant a phobl ifanc ar y Sul heulog hwn ym mis Mehefin, pan groesawyd Cymdeithas Dydd yr Arglwydd i'n plith. Yn ychwanegol at yr hyn a ddysgwn fel arfer yn ein hoedfaon, llwyddodd pawb oedd yn bresennol i ddysgu iaith newydd! Do, wir i chi! Mwy am hynny yn y man.



Ar ddechrau'r oedfa cafwyd gair o groeso ar ran Cymdeithas Dydd yr Arglwydd gan y Parchedig Aled Jenkins. Rhoddodd ychydig o'i gefndir i ni fel un a hanai'n wreiddiol o Lanpumsaint, ond sydd bellach yn weinidog yn Sir Benfro. Esboniodd fel y mae Cymdeithas Dydd yr Arglwydd yn cynnal oedfaon arbennig unwaith y flwyddyn, o'r enw Cymanfa'r Sul, mewn amrywiol gapeli ledled Cymru. Eleni baint y Priordy oedd cael estyn croeso i'r Gymdeithas.

Miriam ac Olwen ddaeth i gyflwyno'r emyn cyntaf, sef '*Y mae i'n Waredwr*', a hynny'n glir ac yn hyderus. Yn cyfeillio i'r canu roedd Band y Priordy, a braf gweld Elin a Cara yn eu plith unwaith eto ar ddiwedd blwyddyn yn y Brifysgol. Yn dilyn y cyhoeddiadau, wrth i Ethan, Gwion, Caleb a Gwilym fynd o amgylch yn casglu, cafwyd datganiad hyfryd gan Gwenan ar y piano.

'*Mae 'nghalon mor llon*' oedd yr ail emyn, a ddarllenwyd yn glir a synhwyrol gan Beca, cyn i Tomos a Jac esgyn i'r pulpud. Roedd y ddau yn amlwg yn hollol gartrefol, a dyma nhw'n cychwyn sgwrs ddifyr â'i gilydd, ynglŷn â chymdogion a pha mor bwysig ydyn nhw. Dywedodd Jac mai defaid yw'r cymdogion agosaf ato fe, ac ymhlith cymdogion Tomos mae Pencadlys Heddlu Dyfed Powys, felly rhaid bihafio! Ond eglurwyd bod y gair cymdogion yn golygu mwy o lawer na'r bobl drws nesaf yn unig, gan fod pobl dros y byd i gyd yn gymdogion i ni. Gofynnodd Iesu un tro, 'pwy yw ein cymydog' a daeth y stori'n fyw i ni yn yr oedfa drwy wyllo ffilm cartŵn cyfoes o'r stori wrth i Beti-Wyn



adrodd yr hanes. Mae'r stori'n gyfarwydd i ni i gyd wrth gwrs fel dameg y Samariad Trugarog, gyda Samariad yn aros i helpu dyn a oedd wedi'i anafu wedi i offeiriad a Lefiad fynd heibio â'i adael i ddioddef.

Yn dilyn yr emyn, '*Ceisiwch yn gyntaf*' a gyflwynwyd yn raenus gan Osian, ategwyd neges y ffilm yn effeithiol iawn mewn darlenniad gan Gwion. Esboniodd ba mor bwysig yw hi ein bod ni'n estyn llaw i helpu ein cymdogion ledled y byd a pheidio â chau ein llygaid ar y dioddefaint sydd yn ein byd. Mae cymdogion da yn sylwi ar bobl sydd angen help, yn stopio ac yn eu helpu, a dyna mae lesu am i ni ei wneud.

Yn y weddi, a gyflwynwyd yn glir a dealladwy gan Megan, diolchwyd i Dduw am storïau'r lesu ac am y gwersi sydd ganddo i'w dysgu i ni. Gofynnwyd am arweiniad i ni wrando ar ei neges a helpu pobl sydd mewn angen ym mhob ffordd bosib.

Canwyd yr emyn nesaf, '*Fy fflam fach i*', i gyfeiliant brwdfrydig a hwyliog band taro'r Priordy a oedd yn amlwg wrth eu bodd yn canu'r amrywiol offerynnau. Rwy'n siŵr bod ein holl gymdogion yn Heol y Prior wedi clywed y perfformiad!

Y Parchedig Derek Rees o gapel Seion, Waunarlwydd a gyflwynodd y neges i'r plant gan ddal sylw'r rhai lleiaf ar unwaith wrth ofyn beth oedd eu hoff raglen Cyw. Dywedodd mai hoff raglen ei ferch fach ef yw Dwylo'r Enfys, sydd yn arbennig am ei bod yn defnyddio iaith Makaton. Iaith yw hon sy'n defnyddio arwyddion a symbolau i



gyfathrebu. Yn ganolog i thema'r oedfa oedd yr adnod, "*Rwyt i garu'r Arglwydd dy Dduw â'th holl galon ... a rwyf i garu dy gymydog fel rwyf ti'n dy garu dy hun*". Dangosodd Derek i'r gynulleidfa sut mae mynegi'r adnod hon gan ddefnyddio Makaton a dyna sut felly y daeth pawb i ddysgu iaith newydd yn y gwasanaeth. Wrth geisio ateb y cwestiwn, 'Pwy yw ein cymydog' eglurodd Derek bod pobl yn tueddu dod yn ffrindiau â

phobl sydd â'r un diddordebau ac sy'n hoffi'r un pethau. Cafwyd gweithgaredd hwyliog wedyn i weld faint o'r gynulleidfa oedd yn hoffi gwahanol bethau fel dawnsio, bwyta pizza, mynd i'r eisteddfod a

chanu emynau. Ychydig iawn oedd yn hoffi pêl-droed, wedi cael hen ddigon ar Gwpan y Byd mae'n siŵr, ond roedd bron pawb yn hoffi cinio dydd Sul! Er bod diddordebau pawb yn amrywio, rydyn ni gyd yn gymdogion i'n gilydd, ac er nad yw bob amser yn hawdd caru pawb o'n cwrpas, mae'n bwysig ein bod yn gwneud ein gorau i ymateb i gariad Duw.



DAETH yr oedfa i ben wrth i ni ganu ‘*Gair disglair Duw*’, a ninnau yn ystod yr oedfa fendithiol hon wedi clywed y Gair ar lafar, ei weld ar ffilm a’i fynegi drwy arwyddion a symbolau.

GŴYL MAWL MEDI Y TABERNACL, CAERFYRDDIN – DYDD SUL 30 MEDI 2018	
<i>Y Bore am 10</i> Oedfa o Fawl i'r Plant a'r Oedolion dan arweiniad Euros Rhys Evans	<i>Y Prynhawn am 2</i> Oedfa Bregethu gyda'r Parchedig Dyfrig Rees
YMARFERION Plant Bore Sul 23 Medi 2018 – Ffestri'r Tabernacl – 10 o'r gloch gyda Nicki Roderick Oedolion <i>Nosweithiau Sul 9 / 23 Medi – Capel y Tabernacl – 7 yr hwyr</i> <i>gyda Helen Gibbon</i>	
Emynau i'w Canu Plant 4 Dewch, blant bychain 2 Cariad Crist 8 Tyred, Iesu 9 Llawenydd a gewch 11 Cristion bychan ydwyf Oedolion 17 Tyddewi 19 Sirioldeb 20 Ombersley 21 Pen Uchaf 25 Iesu yw'r Iôr 15 Glyn Peris 23 Blaenwern	
<i>Bydd BBC Radio Cymru'n recordio Caniadaeth y Cysegr</i> <i>yn Oedfa'r Bore</i>	

PEN-BLWYDD HAPUS 70 OED!

Mae'n anodd dychmygu sut fywyd fyddai gennym heb y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yma yng Nghymru.

Mae'n wasanaeth yr ydym, erbyn hyn, yn ei gymryd yn ganiataol ac yn ei ystyried yn hawl sylfaenol i dderbyn gofal meddygol am ddim. Rydym yn ymfalchïo ynddo, ond hefyd yn cydnabod beiau a gwendidau yn y system wrth i'r Gwasanaeth ddioddef effaith diffyg ariannu enbyd.



Rydw i wedi bod yn gweithio yn y Gwasanaeth Iechyd ers tuag ugain mlynedd bellach, ac yn hynod o falch o hynny. Egwyddorion craidd y


Gwasanaeth Iechyd oedd y prif reswm i mi ddewis gyrfa feddygol, ac mae'r egwyddorion cadarn hynny yn parhau i gadw fy ffydd yn y Gwasanaeth. Sefydlwyd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ar y 5ed o Orffennaf, 1948 dan arweiniad y Gweinidog Iechyd ar y pryd, Aneurin Bevan. Eleni rydym yn dathlu 70 mlynedd ers ei sefydlu. Ac yn wir

mae angen dathlu – dathlu sefydlu'r Gwasanaeth, ond yn fwy na hynny, dathlu bod y gwasanaeth yn parhau hyd heddiw ac yn glynu at yr un egwyddorion oedd yn rhan o weledigaeth Aneurin Bevan yr holl flynyddoedd hynny yn ôl. Mae'n un o gonglfeini ein cymdeithas erbyn hyn a gellid dadlau mai hwn oedd datblygiad gwleidyddol pwysicaf a mwyaf arwyddocaol yr ugeinfed ganrif. Yn sydyn dyma eni wasanaeth Iechyd cynhwysfawr oedd yn ystyried pawb yn gyfartal. Byddai'n cael ei ariannu gan drethi, a phawb yn cyfrannu yn ôl eu gallu. Erbyn hyn, wrth gwrs, rydym yn derbyn mai dyma drefn naturiol y Gwasanaeth Iechyd, ond ar y pryd roedd hyn yn gam gwleidyddol enfawr.



Roedd gwrthwynebu chwyryn i'r syniad, a hynny i'w glywed yn uchel gan ddoctoriaid ac o gyfeiriad y BMA (*British Medical Association*). Mae'n anodd credu bellach bod meddygon eu hunain yn anghytuno

gyda newid y drefn. Fel arfer mi fydden i'n dadlau mai'r gweithwyr o fewn y Gwasanaeth Iechyd ac nid y gwleidyddion a ddylai fod yn penderfynu ar newidiadau o fewn y Gwasanaeth. Yn yr achos hwn, fodd bynnag, rydw i'n falch iawn mai'r gwleidyddion gafodd y gair olaf! Dros y blynyddoedd mae'r Gwasanaeth Iechyd wedi gorfod addasu a datblygu, ac mae'n parhau i wneud hynny'n ddyddiol. Mae'n ariannu gwaith ymchwil, yn buddsoddi yn y datblygiadau iechyd diwedddara, ac yn hyfforddi arbenigwyr mewn nifer o feysydd. Ond



mae'n anodd cynnal a datblygu gwasanaeth iechyd sydd ar flaen y gad yn wyneb toriadau ariannol enbyd.

Mae gan bob un ohonom ein perthynas arbennig gyda'r Gwasanaeth Iechyd. Mae'n gydymaith i ni o'r crud i'r bedd, ac mae natur pob perthynas yn amrywio. Gall y Gwasanaeth Iechyd fod yno fel perthynas bell – yn gweithredu yn y cefndir ac yn rhwyd diogelwch os bydd byth ei angen yn y dyfodol. Ond i lawer mae'n gydymaith bywyd ac yno wrth ein hochr ar yr adegau mwyaf heriol. Er fy mod yn gweithio o fewn y Gwasanaeth, rydw i hefyd wedi bod ar ochr arall y ffens ac wedi bod yn falch o gael derbyn gofal iechyd pan oedd ei angen. Y Gwasanaeth Iechyd oedd yno i mi pan aned ein plant; y Gwasanaeth Iechyd oedd yno pan oedd angen i mi gael llawdriniaeth frys ar fy llygad gan arbed i mi golli fy ngolwg; y Gwasanaeth Iechyd ofalodd am ein plentyn hynaf pan oedd haint gwael ar ei brest, a'r Gwasanaeth Iechyd sy'n sicrhau bod fy mhiant yn cael brechiadau er mwyn eu gwarchod rhag heintiau peryglus.



Does dim ond angen edrych ar rai o wledydd eraill y byd i sylweddoli pa mor ffodus rydym ni o gael gwasanaeth iechyd sy'n trin pawb yn gydradd. Mae'n wir bod gwendidau yn y Gwasanaeth, a gallant fod yn hynod

rwystredig i'r cleifion yn ogystal ag i'r staff. Efallai mai amseroedd aros am apwyntiadau ydy'r gŵyn y bydda i'n ei chlywed amlaf yn y feddygfa. Mae amseroedd aros hir yn annerbyniol, wrth gwrs, ond maent yn adlewyrchiad o wasanaeth sydd dan straen. Mae'n wir hefyd dweud nad ydy llywodraeth San Steffan o hyd yn ymddangos yn

gefnogol i barhad y Gwasanaeth, a'r toriadau ariannol a'r prinder doctoriaid yn gosod her enfawr.

Ond mae'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn parhau, ac yn cael ei ystyried yn drysor cenedlaethol. Bydd dathlu ei ben-blwydd yn 70 yn achlysur arbennig y dylen ni gyd ymfalchïo ynddo. Mae'n anodd meddwl sut fyddai Cymru heb weledigaeth a phenderfyniad Aneurin Bevan yr holl flynyddoedd hynny yn ôl. Gobeithio wir y bydd digon o wynt ym megin y Gwasanaeth i chwythu'r holl ganhwyllau, a digon o wynt ar ôl i chwythu ymaith unrhyw un sy'n meiddio ceisio tanseilio a dymchwel y trysor cenedlaethol hwn. Ymlaen am y 70 mlynedd nesaf!



GŴYL CANOL DRE CAERFYRDDIN

Parc Myrddin, Waun Dew

Dydd Sadwrn, 14 Gorffennaf – 11am-8pm



**Eisiau gwybod mwy am
Gyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin?**



Trowch at: cyfundeb.com



MIC –DYDDIADAU I'W NODI



Mabolgampau dan do	Rowndiau Terfynol y Sir	11 Gorffennaf
Sul Sbesial	Ysgol Bro Dinefwr	8 Gorffennaf (10.30)
Cwrs Ieuentid	Coleg y Bala	30 Gorffennaf – 3 Awst
Souled Out	Coleg y Bala	18-23 Awst

CYFEILLION MADAGASGAR YN FESTRI'R PRIORDY



Tudalen Ieuenctid@Priordy

MABOLGAMPAU MIC 2018

Gorllewin Sir Gâr

Da iawn i bawb a fu'n cystadlu ym
Mabolgampau MIC! Pob lwc i bawb sy'n mynd
ymlaen i rowndiau terfynol y Sir (oed meithrin,
ac oed cynradd) ynghyd â'r rhai
sy'n cymryd rhan yn y
cystadlaethau agored (oed
uwchradd) yng Nghanolfan Hamdden
Caerfyrddin



ar Nos Fercher 11 Gorffennaf.

*Rwy'n mynd i golli'r rowndiau
terfynol eto eleni! Gwaeddwch
yn ddigon uchel i fi gael eich clywed mas yn
Awstralia!*



Dyddiadau'r mis:

Gorffennaf 1 - Parti Diwedd Tymor

Gorffennaf 8 - Sul Sbesial i bawb yn Ysgol Bro
Dinefwr am 10.30

Gorffennaf 15 a mis Awst - dim Ysgol Sul

Medi 6 - Oedfa Blant a Phobl Ifanc gyda Beti-
Wyn

Gofalaeth Y Priordy, Cana a Bancyfelin

Gŵyl Miri Medi

Dydd Sadwrn, 15 Medi 2018

2 o'r gloch

Caeau a Chlwb Rygbi'r Quins,
ABERGWILI

Rasus a gêmau
i'r plant



Barbaciw
Blasus i bawb

EIN PERERINDOD



PERERINDOD 2018

MOR BELL yn ôl â'r ddeuddegfed ganrif mae pererinion wedi teithio i Dyddewi wedi i'r Pab, Calixtus yr Ail gyhoeddi bod dwy bererindod i'r fangre sanctaidd yn gyfystyr ag un i Rufain.



Ar y degfed o Fehefin dyma ni, bererinion y Priorddy, Cana a Bancyfelin, yn ogystal â ffrindiau o Heol Awst ac eraill, yn ailymweld â'r Eglwys Gadeiriol a'r ddinas. Ni allem fod wedi cael

gwell tywydd i grwydro'r strydoedd a, diolch i'r hanesydd hynaws, Malcolm Jones, fe'n cyfeiriwyd at gerflun hynod drawiadol yn ein hatgoffa am drasiedi'r Arminiaid a chyfraniad y Parchedig Patrick Thomas yn amlygu cyfnodau cythryblus y wlad honno.



Gall dyn oedi'n hir yn Nhyddewi, ond roedd



ein pererindod ni'n golygu teithio ymhellach y Sul hwnnw. Ymlaen â ni i Bencaer, Abergwaun. Stori ryfeddol yw stori'r Ffrancod yn glanio yn sir Benfro ym 1797 a does 'na'r un stori i gymharu â Bristgarn, Pencaerau. Cawsom weld y cloc gan Valerie a Raymond Llewhelin. Roeddem ni ymhlith y pum mil a mwy o ymwelwyr sy'n ymweld â'r fferm bob blwyddyn i ryfeddu at dwll yng nghefn y cloc. Y stori yw bod nifer o'r Ffrancwyr wedi meddwi, yn pasio'r tŷ a chlywed sŵn yn y cloc. Gan dybied bod rhywun yn cuddio yn y cloc, saethwyd ato.

Ond doedd neb ynddo! Yn rhyfeddol mae'r cloc yn dal i fynd hyd heddiw.

Byr oedd ein harhosiad yno gan fod yn rhaid i Valerie ruthro draw i Gapel Harmoni lle mae'n organyddes a ninnau yn ei dilyn i

wasanaeth arbennig. Ar ein ffordd draw esboniodd Beti-Wyn sut y cafodd y capel ei enwi yn Harmoni.

Mae'r adeilad yn sefyll ar ddarn o dir oedd yn cael ei alw'n Sbeit. Un diwrnod roedd y Gweinidog yn ceibo'r tir pan alwodd cymydog gan ddweud ei bod yn chwithig bod capel yn cael ei godi ar dir gyda ffasiwn enw a Harmoni ddyle'r enw fod gan fod pawb yn cydfyw'n hapus yn yr ardal. A dyma benderfynu'n syth ar hynny-yr unig gapel yng Nghymru â'r enw hwnnw.



Roedd gathiau Harmoni'n llydan agored i'n croesawu. Dwy res o selogion yr Ofalaeth bob ochr i'r llwybr at y capel yn frwd eu croeso a'r Gweinidog, y Parchedig Geraint Morse yn falch o weld wynebau cyfarwydd o'r cyfnod pan oedd yn weinidog ym Mhenael, Caerfyrddin.



Yn y gwasanaeth cafwyd canu ardderchog i'r emynau. Darllenodd Beti Wyn Salm 24 a daeth y dewis yn amlwg ym mhregeth Geraint Morse. Er i ni fod wedi teithio ar draws sir ryfeddol am ei phrydferthwch, fe'n hatgoffwyd nad ar "drip" yr oeddem ni ond pererindod. Mae pob pererindod yn gofyn am drefnu manwl, gyda nod benodol a rhywun ar

ben y daith yn disgwyl amdanom. Mae pererindota'n hanfodol yn stori'r Beibl, fel yr amlygwyd yn Salm 24, yr Iddewon yn cario Arch y Cyfamod o Fynydd Sinai i Wlad Cannan. Does na'r un bererindod yn hawdd, meddai'r pregethwr a doedd pererindod Iesu Grist ddim yn eithriad chwaith wrth iddo deithio i'w farwolaeth a'i esgyniad.

Yn ôl y disgwyl cawsom bregeth gref a heriol yng nghanol dos o hiwmor. Gadawodd pawb yn uchel eu hysbryd wedi profi'r harmoni dan y Garn Fawr.

Elfed Lewis o Langynnin oedd yn gyrru'r bws ac roedd ei brofiad helaeth yn amlwg ar y daith hon. Ar ein ffordd i'n swper aeth â ni am orig hyfryd ar lan y cei yn Wdig a chyfle i ni flasgu hufen iâ lleol. 'Nôl â ni bentigili i westy Nant y Ffin ger pentref Llandysilio ar y ffin

rhwng Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro. Croesawodd Emrys Murrow a'i staff ni'n wesog a chafwyd pryd blasus cyn troi am adref.

Yn yr ystafell fwyta roedd dau biano a bonws annisgwyl ar ddiwedd y pryd oedd cael Emrys, a'n Heather ni (a arferai weithio yn yn gwesty) i'n harwain i ganu emyn neu ddau, a gorffen wedyn gyda fersiwn sionc iawn o'r 'Entertainer'.

Diolch i Beti-Wyn am drefnu diwrnod sbesial ac am baratoi taflen yn llawn gwybodaeth am uchafbwyntiau'r diwrnod. Diolch i David Lloyd am ofalu ein bod yn talu'n dyledion ac wrth gwrs i Elfed am yrru mor ofalus.

YN OLAF diolch am gwmniaeth y pererinion i gyd o'r gwahanol gapeli ac eglwysi.



‘Agor y Gair’



***Cyfres Newydd o Astudiaethau Beiblaidd Cymraeg
yng Nghaerfyrddin***

Boreau Mercher 3,10,17,24 Hydref 2018

11.00 tan 12.00

Canolfan ‘Yr Atom’, Stryd y Brenin, Caerfyrddin

Arweinwyr

Y Parchedig Peter Cutts a'r Parchedig Beti-Wyn James

Croeso cynnes iawn i bawb

Manylion pellach

☎01267 237696 ☎01267 236658

AR Y WE: www.priordy.org (yn cynnwys Papur Priordy)

COFIO MANDELA

Cawn ofyn i ni o bryd i'w gilydd ble roedden ni pan ddigwyddodd rhywbeth arbennig a enynnodd sylw drwy'r byd i gyd, fel llofruddiaeth John F Kennedy Trychineb Aber-fan a rhyddhau Mandela o'r carchar.

O sôn am Nelson Rolihlahla Mandela bydd ei enw ar dafod leferydd llawer ym mhedwar ban byd dros yr wythnosau nesaf gan mai ar 18 Gorffennaf 1918, gan mlynedd yn ôl i'r mis hwn, y cafodd ei eni.



Hawdd dychymgu felly wahanol sefydliadau yng Nghymru a thu hwnt yn dymuno dwyn ei fywyd a'i waith i gof y flwyddyn arbennig hon gan fod cymaint ganddo i'w ddysgu i ni.



Gwyddom yn dda amdano fel aelod o'r ANC (African National Congress), yn arwain y frwydr i ddod â'r drefn apartheid i ben yn Ne Affrica. Costiodd y frwydr yn ddrud iddo. Bu yng ngharchar am 27 mlynedd - 18 o'r

rheini ar Ynys Robben, cyn i'r Llywodraeth ei ryddhau a chodi'r gwaharddiad ar yr ANC a phleidiau eraill. Daeth Mandela'n arweinydd yr ANC a dyfarnwyd iddo Wobr Heddwch Nobel, ynghyd â'r Arlywydd de Klerk, am sicrhau terfyniad heddychlun i apartheid. Fe'i hetholwyd yn arlywydd du cyntaf De Affrica yn etholiad ddemocrataidd aml-hil gynta'r wlad.



Cofiwn iddo ddod i Gymru a derbyn anrhydedd Rhyddid Dinas

Caerdydd yng nghastell y brifddinas. Ystyriai bobl Cymru'n ffrindiau iddo a gwerthfawrogai gonsŷrn Mudiad Gwrth-Apartheid Cymru dros ei gyd-frodorion.

Beth yw mawredd Mandela? Dywedodd unwaith fod pen da a chalon dda bob amser yn gyfuniad grymus ac yn sicr cafodd yntau ei hunan ei fendithio â'r ddeubeth. Yn ŵr cwbl ddiymhongar, roedd yn barod i ymdrechu a dyfalbarhau'n ddiffino i gyflawni'i weledigaeth, doed a ddël. Ysgogodd bobl i faddau, i gymodi, i fod yn anhunanol a goddefgar ac i gynnal urddas, beth bynnag oedd eu hamgylchiadau. Ysbrydolodd hefyd y genhedlaeth nesaf yn Ne Affrica i barhau i weithio dros undod a chyfle cyfartal. Does ryfedd i Gynulliad Cenedlaethol y Cenhedloedd Unedig ddatgan y byddai 18 Gorffennaf yn 'Ddiwrnod Mandela' fel teyrnged i'w gyfraniad i ryddid byd.



Nid yw apartheid wedi diflannu'n llwyr o'r tir, gwaetha'r modd. Ond, yng ngeiriau Mandela, ni cheir taith hawdd i ryddid yn unman a daw glyn cysgod angau i lawer ohonom cyn i ni gyflawni penllanw'n dyheadau. Gwir pob gair!

Gyda llaw, ar 11 Chwefror 1990 y rhyddhawyd Mandela o'r carchar. Tybed ydych chi'n cofio ble roeddech chi?



 CYFUNDEB GORLLEWIN CAERFYRDDIN CYRDDAU CHWARTER 2018 	
Dydd Iau 13 Medi 2018 (4 a 7)	Siloam, Pont-ar-goithi
Dydd Iau 29 Tachwedd 2018 (10.30 a 1.30)	Trinity, Llanboidy

GŴYL HIRDDYDD HAF

Blaengaredd ar ran Eglwysi Dosbarth Caerfyrddin sy'n cydio ac yn dwyn ffrwyth yw'r Wyl Hirddydd Haf a gynhelir yn flynyddol ym Marc y Dref Caerfyrddin. A go brin y gellid fod wedi cael tywydd gwell nag eleni! A hithau'n brynhawn crasboeth, daeth rhwy hanner cant ohonom, ar draws yr enwadau, yn blant ac oedolion, yn hafaidd iawn ein golwg, at ein gilydd i fwynhau gwasanaeth yn yr awyr agored ar y thema *Gweddi*.



Trwy gyfrwng nifer o ddarlleniadau ac emynau daethom i werthfawrogi arwyddocâd gweddi a phwysigrwydd gweddïo cymunol a phreifat Diddorol oedd olrhain hanes y cefndir i'r gân grefyddol *Dwy law yn erfyn* a ysbrydolwyd gan ddarlun enwog Albrecht Dürer. A chawsom gyfle hefyd i rannu gweddi â'n gilydd. Diolch i aelodau o gapeli Cwm-bach, Moreia Llansteffan, Trinity San-clêr, Tŷ Hen, Bethel Meidrim a'r Babell Zion Newydd am ein harwain ac i'r Parchedig Beti-Wyn James am drefnu'r rhaglen,. Roedd Helen Gibbon wrth yr allweddellau. Cynhyrchwyd y taflenni deniadol gan Emyr Williams.


A diolch mawr i blant Ysgolion Sul Bancyfelin a Thŷ Hen ynghyd â'r Parchedig Beti-Wyn am ein cyflwyno i Weddi'r Ffa Jeli mewn dull mor afaelgar. Cawsom weld fel mae holl liwiau gwahanol y ffa jeli'n cynrychioli pethau y dylem ddiolch i Dduw amdanynt yn ein gweddïau, fel 'gwyRDD' am ein byd, 'oren' am ddydd a nos a 'choch' am lesu'n marw er ein mwyn. A thrwy'r cyflwyniad bu'r plant yn dal lluniau o'r ffa jeli o bob lliw. Roeddent yn gwir haeddu derbyn losin go iawn ar ddiwedd y gwasanaeth! Roedd anrheg i ni'r oedolion hefyd, sef dalennodyn yr un yn cynnwys Gweddi'r Ffa Jeli'n llawn!

Mae'n dyled yn fawr i Huw Thomas, Swyddog Parc a Gweithgareddau Tref Caerfyrddin, a'i staff am ofalu amdanom mor rhagorol.

AETH pawb adref yn bersonau llawer cyfoethocach ar ôl gwasanaeth hyfryd a chyfle i sgwrsio â'n gilydd yn heulwen mis Mehefin. Braf yn ogystal oedd gweld ein cydgyfarfod yn ennyn diddordeb a chwilfrydedd pobl eraill yn y Parc y prynhawn hwnnw.

COFIO WILLIAM EVANS (WIL IFAN) BARD-DBREGETHWYR 1882-1968

GANED Wil Ifan ar 22 Ebrill 1882, yn fab i weinidog amlwg gyda'r Annibynwyr Cymraeg, y Dr Dan Evans a'i briod, yng Nghwmbach, Llanwinio. Ym 1889, pan oedd Wil Ifan yn saith oed, symudodd y teulu i Gwmafan lle roedd y tad yn weinidog ar eglwys Seion. Dychwelodd y teulu i odre Ceredigion ym 1901 lle bu'r Dr Dan yn weinidog ar eglwysi Hawen a Bryngwenith tan ei ymddeoliad ym 1927.



Cafodd Wil Ifan ei addysg ym Mhrifysgol Cymru, Bangor, y Coleg Diwinyddol Bala-Bangor a Choleg Manceinion, Rhydychen.

Yn 1905, cafodd ei ordeinio'n weinidog ar Eglwys Annibynnol Saesneg Dolgellau. Yno y cwrddodd â'r ferch a ddaeth yn wraig iddo - Nesta Wyn Edwards, organyddes y capel - gwraig â gradd dosbarth cyntaf mewn Hanes yng Ngholeg Prifysgol Cymru Aberystwyth. Priodwyd y ddau ym 1910 ar ôl i Wil Ifan dderbyn galwad ym 1909 i Eglwys Gynulleidfaol Saesneg, Pen-y-bont ar Ogwr. Cawsant bedwar o blant - Elwyn, Mari, Nest a Brian. Ym 1917, derbyniodd Wil Ifan alwad i Eglwys Richmond Road, Caerdydd a bu yno tan Ionawr 1925. Dychwelodd wedyn i Ben-y-bont ac yno y bu tan ei ymddeoliad ym 1949.

Bu farw ar 16 Gorffennaf 1968, hanner can mlynedd yn ôl i'r mis hwn, ymhen ychydig o wythnosau ar ôl colli'i briod - yn yr un flwyddyn â **Crwys, Isfoel a Gwenallt** - a'i gladdu yn Rhyd-y-main, Sir Feirionnydd. Un o ffyrdd Pen-y-bont ar Ogwr a enwyd ar ei ôl yw Heol y Bardd a chanodd S O Thomas, Caerfyrddin (sef tad un o'n haelodau ni, Eluned Jones, Glan Tywi) ei glod mewn englynion yn **Y Genhinen**: Yn 2006, cafodd plac ei ddadorchuddio i'w goffáu ym mhentref Llanwinio, ger Castellnewydd Emlyn.

Roedd Wil Ifan nid yn unig yn weinidog a phregethwr ond hefyd yn ddramodydd, newyddiadurwr, darlledwr, darlithydd, bardd Cymraeg a Saesneg, arlunydd a cherddor. Treuliodd ei holl fywyd yn weinidog yr Efengyl gyda'r Annibynwyr Saesneg. Iddo yntau iaith crefydd oedd Saesneg ond Cymraeg oedd iaith yr aelwyd.

Enillodd y Goron deirgwaith yn Y Fenni (1913), Penbedw (1917) a Phwllheli (1925). Pan enillodd ei drydedd Goron yn 1925 roedd yn garreg filltir yn hanes barddoniaeth Gymraeg - ei bryddest *Bro Fy Mebyd* oedd y gerdd fuddugol gyntaf yn y wers rydd neu vers libre. Bu'n Archdderwydd yr Orsedd o 1947 hyd 1950.

Roedd Wil Ifan yn fardd toreithiog - yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae cyfrolau ganddo yn y ddwy iaith. Cyhoeddodd Derwyn Jones ddetholiad o gerddi Wil Ifan ar drothwy Eisteddfod Genedlaethol Bro Ogwr ym 1998, sef **Bro Fy Mebyd a Cherddi Eraill (Gee)**. Canai i bethau cyffredin, gwrthrychau natur yn bennaf. Mae rhai o'i gerddi hefyd yn mynegi'i deimladau at heddychiaeth. Y syndod yw nad oes fawr o ganu crefyddol yn ei waith. Y delyneg oedd ei hoff gyfrwng fel bardd.

Ar 13 Chwefror 1923 y dechreuodd y BBC ddarlledu yng Nghymru pan agorodd y British Broadcasting Company (fel roedd y pryd hwnnw) ei orsaf yng Nghaerdydd. Yn gynnar iawn yn hanes darlledu, rhoddwyd lle blaenllaw i raglenni crefyddol. Darlledwyd y rhaglenni cynnar o wahanol gapeli a, chyn hir, dechreuwyd darlledu gwasanaethau arbennig o'r stiwdio. Yn nyddiau'r stiwdio fechan yn Castle Street yng Nghaerdydd y darlledwyd y gwasanaeth cyntaf.

Arweiniwyd y gwasanaeth hwnnw gan Wil Ifan, gweinidog ar y pryd yn Richmond Road, Caerdydd.



Mae pedwar emyn gan Wil Ifan yn *Caneuon Ffydd*, sef **Grist Bendigedig** (CFf 382), cyfieithiad o emyn gan y Wyddeles Mary MacDonald, y garol boblogaidd iawn **Tua Bethlem Dref** (468)..yr emyn bedydd *Pob rhodd ddaionus yn ein llaw* (643) a *Fy nghalon, cred yn Nuw* (674), cyfieithiad o emyn gan Bryn Austin Rees (1911-83).

I GLOI, dyma ddyfynnu'i emyn nodedig *Grist Bendigedig* y mae iddo berthynas agos â'r alaw Aelaidd 'Buinessan' (Caneuon Ffydd 313):

Grist bendigedig,
faban y Forwyn,
Grist gwrthodedig,
Arglwydd byd;
baich ein camweddau
ddug yr un bychan,
llwyth ein troseddau
Arno i gyd.

Grist bendigedig,
Fab iachawdwriaeth,
ddoe'n ostyngedig
yma'n byw:
heddiw yn eiriol
yn y gogoniant
dros edifeiriol
gyda Duw.

Grist bendigedig
ddoe ar y ddaear,
heddiw'n garedig
Frenin nef:
dwyfol drigfannau
sydd yn ein disgwyl,
tynion fo'n tannau
iddo ef.

BORE COFFI McMILLAN

Yn rhan o Fore Coffi Mwya'r Byd

Dydd Gwener 28 Medi 2018

Festri'r Priordy - 9.30 tan 12.00


Trefnydd – Alison Parsons – Mwy o fanylion ym mis Medi



CWRDD DIACONIAID Y PRIORDY

Nos Fercher, 19 Medi 2018 am 7 yn y Festri

***Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid eu trafod, yna rhowch
wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd
os gwelwch yn dda***



**COFIWCH AM Y BLWCH STAMPIAU A'R BLWCH CETRYS A'R BLWCH
TOPIAU POTELI PLASTIG YN Y CYNTEDD**

HANES DIDDOROL ADEILAD EGLWYS Y PRIORDY A'R WAL FFIN



Derbyniwyd Caniatâd Adeilad Rhestredig gan Gyngor Sir Gâr yn ddiweddar i fwrw 'mlaen â'r gwaith o atgyweirio'r wal o flaen y capel trwy ailbwyntio gan ddefnyddio cymysgedd calch yn lle sment, gan fod y sment wedi dod yn rhydd neu wedi cwmpo mas o'r wal mewn ambell i fan.

Teg gofyn pam yn y byd y byddai angen caniatâd i atgyweirio rhywbeth sydd yno'n barod. Yr ateb yw bod rhaid cael caniatâd i newid unrhyw beth ynglyn ag adeilad rhestredig, fel y gwyddom, wrth gwrs ar ôl cael profiad tebyg pan symudon ni'r Sedd Fawr o'r capel i'r festri rai blynyddoedd yn ôl.

Roedd gofyn paratoi "Datganiad o'r Effaith ar Dreftadaeth" fel rhan o'r cais Adeilad Rhestredig. Diddorol oedd cael gwybod fod y clwydi, y pyst metal a'r ffens fetal sy'n ffurfio'r ffin rhwng tir y capel a'r palmant yn "Adeilad Rhestredig" ar wahân i adeilad rhestredig y capel ei hunan.



Cynhyrchwyd y clwydi, y pyst metal a'r ffens fetal gan gwmni W Morgan o Gasnewydd, Sir Fynwy (fel y'i gelwid ar y pryd). Dyma'r geiriau sydd yn y Rhestr (anodd eu cyfieithu!):

"a low wall of rubble stone with painted ashlar coping and cast-iron railing with top and bottom rail and alternating broader and narrower rails of cross section. Chamfered cast-iron square standards with big fleur-de-lys finials. Panelled cast-iron gate posts with corniced caps and acorn finials, left gate post inscribed "Bakers Newport". Pair of broad iron gates with mid-rail and alternate fleur-de-lys finials."

Rhoddir y rheswm am gynnwys y rhain fel "Adeilad Rhestredig" ar wahân fel: "enghraifft dda o waith haearn diwedd y 19eg ganrif a'i werth pan y'i hystyrrir ar y cyd ag adeilad y capel." Mae'r capel ei hun

yn Adeilad Rhestredig am mai dyma oedd yr enghraifft gyntaf ym 1875 o gapel yn y dull Romanesque a gynlluniodd George Morgan, Caerfyrddin, un o benseiri capeli mwyaf enwog Cymru. O ran diddordeb, George Morgan oedd pensaer Eglwys yr Annibynwyr Saesneg yn Heol Awst hefyd, ac estyniad y Tabernacl yn Teras Waterloo, yn ogystal â nifer fawr o gapeli eraill ar hyd a lled Cymru.



Dywedir yn y Rhestr (cyfieithiad) : “Adeiladwyd y capel gan ddefnyddio tywodfaen gyda manylion mewn “Bath stone” a’r “voussoirs” (cerrig sy’n ffurfio’r fwa uwchben y drysau a’r ffenestri) mewn calchfaen lwyd,



gyda llechi ar y to a ffenestri plwm. Ceir mynediad trwy ddrysau pren a phaneli ynddynt o dan tympanwn (y rhan uwchben y drws o dan y fwa) wedi’i ffurfio o garreg wedi’i naddu’n gelfydd (“ashlar tympanum”), a’r enw “Priory Congregational Church” a’r flwyddyn “1875” wedi’u naddu arno.”

Termau pensaernïol eithaf anghyfarwydd!

Gwnaethpwyd dau gangymeriad wrth geisio cynnal a chadw

wal y ffin yn ystod y 70 mlynedd diwethaf. Yn gyntaf ailbwyntiwyd gan ddefnyddio cymysgedd sment yn lle’r cymysgedd calch gwreiddiol. Yn anffodus dyw sment ddim yn caniatáu i’r wal anadlu nac i ddŵr redeg mas ohoni, a’r canlyniad yw bod y pwyntiad yn rhyddhau gydag amser. Yr ail gangymeriad oedd paentio’r cerrig copa gyda phaent wal mas. Mae hyn erbyn heddiw’n cael ei ystyried yn “bechod marwol” ym myd CADW! Peth gwael yw paentio’r tywodfaen hardd, a thrwy hynny’i guddio a’i atal rhag anadlu.



Felly bydd ailbwyntio trwy ddefnyddio cymysgedd galch yn unioni’r cam a wnaethpwyd â’r wal gynt. Y cwbl y gallwn ni ei wneud gyda’r cerrig copa yw eu hatgyweirio lle maen nhw wedi cracio. Bydd Is-Bwyllgor yr Adeiladau yn trefnu’r gwaith yma yn y dyfodol agos.

Dymuna'r Is-bwyllgor ddiolch o galon i Trefor Thorpe, BA (Arch), Dip.Arch., IHBC(Retd), sydd â chysylltiadau agos â'r Tabernacl, Caerfyrddin ac yn arbenigwr ar adeiladau rhestredig, am ei gymorth gwirfoddol i baratoi'r cais am ganiatâd Adeilad Rhestredig.

Mae'n diolch ninnau hefyd i'r Dr Huw ac Is-bwyllgor yr Adeiladau am eu gwaith hwythau

ADDOLI AR Y CYD MIS AWST 2018	
Dydd Sul, 5 Awst <i>Heol Awst</i> Y PARCHEDIG DDR DESMOND DAVIES	
Dydd Sul, 12 Awst <i>Capel Penuel</i> Y trefniadau i'w cyhoeddi	
Dydd Sul, 190 Awst <i>Y Tabernacl</i> Y PARCHEDIG EIRIAN WYN LEWIS Oedfa Gymun	
Dydd Sul, 26 Awst <i>Y Priordy</i> Y PARCHEDIG DDR NOEL DAVIES	
NODER, OS GWELWCH YN DDA <i>Gwasanaeth am 10 y bore (yn unig) ym mhob capel</i>	

Nansi Hayes..

OEDFA HAF CARTREF PLAS-Y-DDERWEN

Roedd Lolfa Cartref Plas-y-Dderwen bron iawn yn llawn ar gyfer y Gwasanaeth Canol Haf, Ddydd Gwener 22 Mehefin rhwng y trigolion, eu perthnasau, a ffrindiau o wahanol Gapeli'r cylch, dan arweinyddiaeth Y Parchedig Beti Wyn, gyda Mai yn cyfeilio fel arfer.



Crewyd naws hyfryd gyda Beti-Wyn yn sefydlu'i thema ar yr adnod "*Cariad yw Duw*", ac yn dyfynnu o 1 Corinthiaid 13,.."*a'r mwyaf o'r rhain yw Cariad*", a hefyd o loan, "*O Dduw y mae cariad, oherwydd Duw Cariad yw*". Er mwyn pwysleisio'i neges, roedd wedi dod â "*Blodyn Haul*" i egluro mor rhyfeddol yw byd natur, sef bod y blodyn yma'n troi i wynebu'r haul a'i ddilyn.



Mae'n bwysig i ninnau hefyd, ble bynnag yr ydym, i ddilyn Duw, oherwydd bod cariad Duw yn ein denu ni.

Yn y weddi wrth ddod â'r gwasanaeth i ben, diolchwyd am fyd natur, am deulu Plas-y-Dderwen a'r gofalmwr, a phawb oedd wedi dod i gefnogi, gan ofyn bendith Duw cyn dweud Gweddi'r Arglwydd gyda'n gilydd yn y ddwy iaith.



CYMORTH CRISTNOGOL 2018

Llwyddodd y Priordy i godi £600 wrth gasglu o dŷ i dŷ yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol.

Diolch yn fawr iawn i Eirlys Jones am drefnu'r casgliad, y casglyddion ac Adrian Evans, ein Trysorydd, am gadw'r cyfrifon.

Gwefan yr Undeb: www.annibynwyr.org

YR YSGOL SUL

Plant yn adeiladu cartrefi i Zaza (Haiti)



AGOR Y LLYFR YN YSGOL Y DDERWEN



**A WYDDOCH CHI
FAINT O EGLWYSI, AELODAU,
PLANT A PHOBL IFAINC
SYDD GAN
UNDEB YR ANNIBYNWYR CYMRAEG?**

RHIF	CYFUNDEB	EGLWYSI	AELODAU	PLANT A PHOBL IFAINC
1	Llyn ac Eifionydd	22	822	121
2	Gogledd Arfon	23	1114	208
3	Dwyrain Dinbych a Fflint	8	200	35
4	Gorllewin Dinbych a Fflint	8	205	43
5	Maldwyn	23	596	89
6	Meirion	27	1044	131
7	Môn	26	694	71
8	Ceredigion	52	3158	208
9	Gorllewin Caerfyrddin	36	2552	371
10	Dwyrain Caerfyrddin a Brycheiniog	47	3259	340
11	Gogledd Morgannwg	11	113	12
12	Dwyrain Morgannwg	21	1443	387
13	Gorllewin Morgannwg	47	2196	150
14	Penfro	31	1378	79
15	Llundain	5	144	2
	CYFANSWM	387	18,918	2,247

Ffynhonnell

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

*Tanysgrifiadau a Chyfrifon 2017
Tŷ John Penri, Abertawe*

Y DDIWEDDAR GWEN DAVIES

Gyda thristwch mawr y cofnodwn farwolaeth un o'n haelodau, sef Gwen Davies. Roedd Gwen yn bresenoldeb tawel a ffyddlon a phob amser yn gwenu, er gwaetha'r ffaith bod ei hiechyd yn ddigon bregus ar adegau.

Yn enedigol o Gaio, symudodd i'r dref wedi priodi â'i diweddar wr leuan. Magwyd y merched, Elisabeth a Sylvia, yn Ysgol Sul Y Priordy, a hyfryd oedd cael cwmni Gwen yn yr oedfaon bob amser.

Roedd ei theulu'n golygu popeth iddi. Yn ogystal â'r hanner cant a mwy o gefndryd y byddai'n cydlynu'r dasg o'u galw at ei gilydd o bryd i'w gilydd, does dim amheuaeth mai'r merched a'u teuluoedd oedd canolbwynt ei bywyd. Roedd yn fam annwyl a chariadus, yn fam yng nghyfraith barchus ac yn fam-gu heb ei hail i'w phedwar ŵyr.

Cafodd Gwen ei hamgylchynu â phobl ar hyd ei hoes, gan gynnwys criw agos iawn o ffrindiau a chymdogion cyfeillgar, ond cytunwyd nad oedd ffrind gwell na chymydog mwy teyrngar na Gwen ei hun.

Bu'r teulu'n ofalus iawn ohoni trwy gydol ei thostrwydd a chafodd ofal arbennig ar aelwyd Elisabeth yng Nghaerdydd lle bu farw'n dawl, yng nghwmni'i theulu ar
5 Mehefin 2018.

Daeth cynulleidfa luosog i'r Priordy ar ddydd Gwener, 22 Mehefin i oedfa i ddiolch am ei bywyd a'i gwaith. Gwasanaethwyd gan ei Gweinidog. Rhoddwyd ei gweddillion i orffwys ym mynwent y dref.

Beti-Wyn



DYLETSWYDDAU GOFALWR / GWRESOGWYR Y MIS



Gorffennaf		Medi	
Gofalwr	Gwresogwr	Gofalwr	Gwresogwr
David Lloyd		Catrin H Jones	Gareth Gravell

26 Awst 2018 – Is-bwyllgor yr Adeiladau



BLODAU



Gorffennaf	1		Medi	2	
	8			9	Eurwen Jones
	16	Gill Owens		15	
	22	Eirlys Jones		23	Rhian Jones
				30	

26 Awst 2018 – Mair Baston



PARATOI'R BWRDD CYMUN



Gorffennaf	1	Bore	Alwen Owen a Fiona Elias
Medi	2	Bore	Eleri Thomas a Delyth Davies



YMWELWYR



Gorffennaf / Awst	Nansi a Desmond Hayes
Medi / Hydref	Thelma Evans a June Thomas, Eira Phillips ac Eira Jenkins



DARLLENWYR



Gorffennaf	1	Luned Thomas	Medi	2	
	8			9	Mwynwen Jones
	15	Sulwyn Thomas		16	Alwen Owen
	22	Eirlys Jones		23	Meleri Llwyd O'Leary
	29	Glenys Thomas		30	



CYHOEDDWYR



Gorffennaf	Eirlys Jones	Medi	Chris Lloyd
------------	--------------	------	-------------



DA gennym ddweud bod trydedd ferch wedi'i geni ar 6 Mehefin 2018 i Rhodri a Ming Davies yn Farnborough, yn chwaer fach i Aneira Rui Davies a Cerys Shanshan ac yn wyres i Gwynfor a Janet Davies. A gyda llaw, fe'i ganed ar ddiwrnod pen-blwydd ei thad-cu! Ein cofion cynhesaf at y teulu oddi wrth bawb yn y Priordy, a phob bendith ar y teulu bach.



Anfonwn ein cofion cynhesaf at y rhai sydd mewn ysbyty neu sydd newydd fod a chael triniaeth, sef Tina Charles, Wyn Tegryn Evans a David Baston. Dymunwn yn dda iddynt a phawb arall sy'n anhwylyd y dyddiau hyn.

Bu Elinor Wyn Reynolds ar **Raglen Aled Hughes** ar **Radio Cymru** yn cofio tywysogesau sydd 'ar goll' o hanes Cymru, yn cynnwys y Dywysoges Gwenllïan, merch Llywelyn Ein Llyw Olaf, a gafodd ei geni yn 1282. A da oedd darllen yn **Cwlwm** am lwyddiant ei brawd, ein Geraint Huw Reynolds ni, yn ennill gwobr ffilm fer orau ynghyd â gwobr ffilm orau'r wyl yng Ngŵyl Ffilm Bae Caerfyrddin. Mae'r ffilm, *Helfa'r Heli*, yn addasiad o'r stori fer *Catch of the Day* a ysgrifennwyd gan ei wraig Sarah Reynolds, a enillodd iddi wobr Stori Fer Rhys Davies yn 2015. A thrwy gydol y mis bu Beti-Wyn yn cyflwyno sesiwn yr wythnos o **Munud i Feddwl** ar **Radio Cymru**.



Bu Tim Hayes ar raglen **Dewi Llwyd ar Fore Sul** ar **Radio Cymru** - yn adolygu tudalennau chwaraeon y Papurau Sul a Rebecca Hayes yn adolygu'r papurau dyddiol ar **Y Post Cyntaf**. Ac un a fu'n brysur iawn yn ddiweddar yw'r Dr Huw Michael. Bu ar y **Post Cyntaf** yn sôn am ddatganiad y Llywodraeth ynglŷn â gorsaf bwr niwclear Wylfa Newydd, ac ar y **Post** eto a **Newyddion 9** ar **S4C** yn sôn am sefyllfa morlyn Bae Abertawe. Yna, bu'n un o dri ar **Raglen Siân Cothi** ar **Radio Cymru**'n sôn am Gôr Meibion Caerfyrddin yn dathlu 60 mlynedd ers ei ffurfio eleni, a'r gyngerdd fawr yn y Lyric ar 13 Hydref – mae'r manylion yn y papur hwn.

POB dymuniad da i bawb dros fisoedd gweddill yr haf!

Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Medi i'n
Gweinidog neu Tina Charles



**Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru
Brycheiniog a Maesyfed
28 Mai - 2 Mehefin 2018**



Llongyfarchiadau i bawb a fu'n cystadlu eleni yn Eisteddfod yr Urdd ar bob lefel ac yn enwedig i'r rhai isod a fu'n fuddugol yn y Genedlaethol.

Beca Elfyn yn ennill dwy wobwr gyntaf yn yr Adran Ffotograffiaeth sef (a) :
Print Lliw B2 ac iau a (b) Cyfres o Brintiadau Lliw B2 ac iau. **Siwan Mair Jones** yn ennill y drydedd wobwr yn yr Unawd Cerdd Dant B7-9. **Heledd Mai Jones** yn aelod o'r tîm buddugol ac yn ennill y wobwr am y siaradwr gorau yng nghystadleuaeth Tîm Siarad Cyhoeddus
B10 a dan 19

Bu hefyd nifer fawr o blant, ieuencctd a phobl ifainc y Priordy ar lwyfan y Brifwyl yn aelodau mewn corau a phartion amrywiol ysgolion ac adrannau a chyflawni'n ardderchog.



GŴYL MIRI MEDI
Dydd Sadwrn, 15 Medi 15 am 2
Caeau a Chlwb Rygbi'r Twins, Abergwili



Prynhawn i deulu'r eglwys. Croeso i bawb o bob oed

Manylion llawn ar Dudalennau'r Ifanc yn y Papur hwn

DIOLCH YN FAWR

Diolch i Beti-Wyn a Philip am y lluniau'r mis hwn



NEGES ODDI WRTH BETI-WYN

Fel y gwyddoch, byddaf oddi cartref am dair wythnos yn ystod mis Gorffennaf (2il tan 25ain) yn Awstralia. Os oes argyfwng yn codi yn fy absenoldeb, cysylltwch ag Alun Charles. Dim galwadau ar fy ffôn symudol dros gyfnod yr haf os gwelwch yn dda, ac eithro drwy'r Ysgrifennydd .

Diolch yn fawr iawn am eich cydweithrediad parod a haf hapus i bawb ohonoch.



Y SULLIADUR



Gorffennaf	1	<i>Bore</i> <i>Hwyr</i>	Gwasanaeth Dinesig y Maer, Y Cyngorydd Emlyn Schiavone, gyda'n Gweinidog, Caplan y Maer Ein Gweinidog	Cymun
	8	<i>Bore</i>	Sul Sbsial - Manylion y tu mewn	
	15	<i>Bore</i> <i>Pnawn</i>	Mandela' – Gwasanaeth yng ngofal yr Aelodau Gwasanaeth yn seiliedig ar 'Mandela' ym Mancyfelin am 2	
	22	<i>Bore</i>	Tudur Dylan Jones	
	29	<i>Bore</i>	Ein Gweinidog Pererindod o ardal Crymch / Blaen-ffos yn ymuno â ni yn yr oedfa	

Medi	2	<i>Bore</i> <i>Hwyr</i>	Cwrdd Plant a Phobl Ifainc gyda'n Gweinidog Ein Gweinidog	Cymun
	9	<i>Bore</i> <i>Hwyr</i>	Ein Gweinidog Ymarfer ar gyfer Gŵyl Mawl Medi i'r Oedolion yn y Tabernacl am 7	
	16	<i>Bore</i>	Ein Gweinidog <i>Casgliad at y Genhadaeth (mewn amlen gyda'ch rhif a'ch enw ar y blaen)</i>	
	23	<i>Bore</i> <i>Hwyr</i>	Ein Gweinidog Ymarfer ar gyfer Gŵyl Mawl Medi i'r Plant yn y Tabernacl am 10 Ymarfer ar gyfer Gŵyl Mawl Medi i'r Oedolion yn y Tabernacl am 7	
	30	<i>Bore</i> <i>P'nawn</i>	Gŵyl Mawl Medi yn y Tabernacl am 10 Gŵyl Mawl Medi yn y Tabernacl am 2 <i>Manylion y tu mewn</i>	

CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC									
✓ Ysgol Sul PIP - Pobl Ifainc y Priordy - Dim Ysgol Sul CP – Cwrdd Plant SS – Sul Sbsial GMM (Y) – Gŵyl Mawl Medi – Ymarfer GMM- Gŵyl Mawl Medi									
Gorffennaf					Medi				
1	8	15	22	29	2	9	16	23	30
✓	SS	-	-	-	CP	✓	✓	GMM(Y)	GMM

SULLIADUR MIS AWST – Y TU MEWN